Parti Traeth Rhisga 2023 – Gwybodaeth teithio a parcio 🚘

🚗 **PARCIO CEIR**




Mae parcio i'r cyhoedd ar gael am ddim yn y meysydd parcio cyfagos canlynol:

- Maes parcio Tredegar Terrace, NP11 6BY
- Parcio a Theithio Gorsaf Reilffordd Rhisga a Phont-y-meister, NP11 6BD
- Maes parcio Tesco Extra (amser cyfyngedig ac ar gael i gwsmeriaid yn unig), NP11 6NP

Mae gan bob un o'r meysydd parcio uchod gilfachau parcio i bobl anabl. Gwiriwch yr arwyddion ym mhob maes parcio am delerau ac amodau llawn.

🚆 **TRAFNIDIAETH GYHOEDDUS**



Gallwch chi gyrraedd safle'r digwyddiad yn Nhiroedd Tredegar, NP11 6BX, mewn 7 munud ar droed o orsaf reilffordd Rhisga a Phont-y-meistr.

- Mae gorsaf reilffordd Rhisga a Phont-y-meister ar reilffordd Glyn Ebwy, ac mae trenau'n rhedeg bob awr i Lynebwy a Chaerdydd Canolog ac yn ôl. Efallai y bydd tarfu ar wasanaethau rheilffordd, gwiriwch ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i wasanaethau.

- Mae Rhisga yn cael ei gwasanaethu gan fysiau sy'n teithio i Goed Duon, Tredegar, Bryn-mawr a Chasnewydd ac yn ôl. Mae safleoedd bysiau Eglwys y Bedyddwyr Moriah a Spar, yn Rhisga, yn union y tu allan i safle'r digwyddiad yn Nhiroedd Tredegar.

I gael rhagor o wybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus i Risga ac yn ôl, ewch i [www.traveline.cymru](http://www.traveline.cymru)

🚲 **RHESELI BEICIAU**



Mae rheseli beiciau ar gael y tu allan i Lyfrgell Rhisga, NP11 6BW.

🐶Mae croeso mawr i gŵn ddod i Barti Traeth Rhisga, ac eithrio ardal y traeth am resymau iechyd a diogelwch.

Rydyn ni'n edrych ymlaen at groesawu pawb i Barti Traeth Rhisga!

bit.ly/3Mc22dq

#CroesoCaerffili #DewisLleol #PartiTraethRhisga